

Diwrnod Hwyl Dolwyddelan

Diolch yn fawr i'r criw gwych o helpwyr a roddodd brynhawn cyfan o'u hamser ar y 9^{fed} o Hydref i roi trefn ar y **Diwrnod Hwyl** – llawer o ddwylo wna llawer o waith. Diolch hefyd am y gwaith wnaeth cymaint o bobl eraill yn y cefndir i wneud y diwrnod yn gymaint o lwyddiant. Roedd y diwrnod ei hun yn sych ac yn ddi-biwiaid, a doedd dim gormod o gacwn (os byddwch chi'n gwneud **te hufen** mae'n rhaid disgwyl cacwn!).



Diolch hefyd i bawb fu'n gweini'r bwyd, yn cadw stondin, yn gweithio ar y PA ac yn arddangos neu'n cyflwyno. Roedd sawl un o'r farn mai hwn oedd y Diwrnod Hwyl gorau erioed!

Roedd y **Perfformiwr Syrcas**, y **Canwr Gwerin** a'r **Cwrs Rhwystrau Plant** yn gaffaeilad sicr i naws y diwrnod, ac wedi eu mwynhau gan bawb.

Diolch i dafarn y **Gwydyr** am drefnu'r bar a'r stondin grefft llechi, roedd y babelll grwr'n sicr yn ychwanegu rhywbeth i'r diwrnod.

Ac os ydi rhywun ar ôl sydd heb ei ddiolch - 'Diolch i **chi** hefyd.'

Mae'r **£484.41** a godwyd yn hanfodol i gynnal y Pafiliwn, ystafell TG Gwyddelan a'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu. Mae'r elw'n cynnwys rhoddion o £100 oddi wrth **Grŵp Cynefin** a £100 oddi wrth **Cartrefi Conwy** i wneud iawn am fethu â dod ar y dydd. Diolch i'r ddau ohonyn nhw am eu cefnogaeth.

Yn olaf, diolch arbennig i bawb a arhosodd ar ddiwedd diwrnod prysur ond blinedig i dynnu popeth i lawr, i gadw popeth, i orffen y bwyd a thacluso'r cae.

Welwn ni chi gyd y flwyddyn nesa !